Pecyn Dogfen Cyhoeddus

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad | Dyddiad: | Dydd Gwener, 13 Tachwedd 2014 |
| | | Rhif Union: | 01824 712554 |
| | | ebost: | dcc_admin@denbighshire.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD, DYDD IAU, 20 TACHWEDD 2014** am **9.30 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 - GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I'R RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD** (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiadau personol neu sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2014 (copi ynghlwm).

**5 TCC A GWASANAETH TU HWNT I ORIAU ARFEROL** (Tudalennau 15 - 18)

Ystyried adroddiad cyfrinachol (copi ynghlwm) sy'n ceisio safbwynt yr Aelodau ar gynigion ar gyfer darpariaeth TCC a Gwasanaeth Tu Hwnt i Oriau Arferol ledled y Sir i'w cyflwyno i'r Cyngor Sir.

09:35 – 10:05

**6 COFRESTR RISG GORFFORAETHOL** (Tudalennau 19 - 28)

Ystyried adroddiad (copi ynghlwm) a darparu sylwadau ar ddiwygiadau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, a phenderfynu os yw'r risgiau a nodwyd yn cael eu rheoli'n briodol.

10:05 – 10:35

**EGWYL**

**7 PERFFORMIAD CWYNION EICH LLAIS – CHWARTER 1 A CHWARTER 2** (Tudalennau 29 - 40)

Archwilio perfformiad Gwasanaethau i gydymffurfio â phroses gwynion y Cyngor.

10:45 – 11:15

**8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO** (Tudalennau 41 - 58)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a diweddaru'r aelodau ar faterion perthnasol.

11:15 – 11:40

**9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR**

Derbyn unrhyw ddiweddariad gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar wahanol Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor.

11:40 – 12:00

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem ganlynol yn cael ei thrafod oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu (fel y'i diffinnir ym mharagraff 13, 14, 15 ac 16 Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf.)

**10 YSTADAU AMAETHYDDOL** (Tudalennau 59 - 74)

Ystyried adroddiad cyfrinachol (copi ynghlwm) sy'n ceisio sylwadau'r Pwyllgor ar berfformiad Ystadau dan y strategaeth gyfredol, a sylwadau'r aelodau i'w hystyried wrth lunio strategaeth newydd ar gyfer yr Ystâd.

12:00 – 12:30

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Y Cynghorydd David Simmons (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Arwel Roberts (Is-Gadeirydd)

Meirick Davies
Richard Davies
Colin Hughes
Geraint Lloyd-Williams

Peter Owen
Dewi Owens
Gareth Sandilands

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant: | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Cofnodion y Pwyllgor Archwilio Perfformiad** a gynhaliwyd ar **ddydd Iau, 2 Hydref 2014** am **9.30am** yn **Ystafell Gynhadledd 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun**

**Yn bresennol:**
Cynghorwyr Meirick Lloyd-Davies, Richard Davies, Colin Hughes, Geraint Lloyd-Williams, Peter Owen, Dewi Owens, Arwel Roberts (Is Gadeirydd), Gareth Sandilands a David Simmons (Cadeirydd)

**Hefyd yn bresennol:**
Mohammed Mehmet (Prif Weithredwr), Nicola Stubbins (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol); Karen I Evans (Pennaeth Addysg), Leighton Rees (Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd), Phil Gilroy (Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes), Keith Amos (Rheolwr - Swyddfa'r Rhaglen Gorfforaethol), Iolo McGregor (Swyddog Gwella Corfforaethol), Ivan Butler (Pennaeth Archwilio Mewnol), Rhian Evans (Cydlynydd Archwilio) a Karen A Evans (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd).

Aelodau Cyfetholedig; Gill Greenland, Debra Houghton a Dr. Dawn Marjoram.

Mynychodd y Cynghorwyr Bobby Feeley (Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant) a Barbara Smith (Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad) ar gais y Pwyllgor.

Mynychodd y Cynghorwyr Raymond Bartley a Huw Ll Jones fel arsylwyr.

**1 YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorydd Eryl Williams (Aelod Arweiniol dros Addysg). Aelodau Cyfetholedig Nicola Lewis a Gareth Williams

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Datgan unrhyw gysylltiad personol neu sy'n rhagfarnu

**3 MATERION BRYS FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni chafodd unrhyw faterion eu codi.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2014. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo a derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf, 2014 fel cofnod cywir.*

## 5 ARHOLIADAU ALLANOL DROS DRO AC ASESIADAU ATHRAWON

Cyflwynodd y Pennaeth Addysg, Karen Evans yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol). Cadarnhaodd fod yr holl ganlyniadau wedi cael eu gwirio ar wahân i Gyfnod Allweddol 4. Byddai'r canlyniadau hynny a wiriwyd yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2015. Er bod y mwyafrif o ysgolion a disgyblion yn perfformio'n dda, roedd meysydd penodol a fyddai'n elwa o gymorth i wella cyrhaeddiad, a'r canlyniadau yn sgil hynny i'r disgyblion.

Un maes a fyddai'n elwa o ymyrraeth yn ystod y flwyddyn sydd i ddod yw'r iaith Gymraeg (iaith gyntaf) yng Nghyfnod Allweddol 2, a oedd wedi gweld gostyngiad o 2.9% mewn perfformiad o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Un rheswm posibl dros hyn yn ôl pob sôn oedd y cynnydd mewn teuluoedd cyfrwng Saesneg sy'n anfon eu plant i ysgolion Cymraeg. Nodwyd bod y swyddogaethau a gyflawnwyd yn flaenorol gan yr Awdurdod ee bod Athrawon Bro bellach wedi'u trosglwyddo i Wasanaeth Effeithlonrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) a fyddai'n cefnogi ysgolion yn yr ardal benodol hwn.

Trafododd y Pwyllgor y Cyfnod Sylfaen lle mae Awdurdodau Lleol eraill yn prysur ddal i fyny â'r Sir. Dywedwyd bod mwy o blant gyda phroblemau ymddygiad a oedd yn effeithio ar addysgu yn yr ardaloedd amddifadedd. Hefyd bu'r Pwyllgor yn ystyried yr ystod o lefelau sgiliau yn y Cyfnod Sylfaen a chytunwyd ei bod yn bwysicach canolbwyntio ar gyrhaeddiad plant ar ddiwedd addysg gynradd - y cynnydd a wnaed.

Dywedodd Aelod o'r Pwyllgor bod cyrff llywodraethu mewn rhai ysgolion yn teimlo nad ydynt yn derbyn digon o gefnogaeth gan GwE. Pwysleisiodd y Pennaeth Addysg yr angen i gyrff llywodraethu ysgolion i roi gwybod i'r Adran Addysg os oeddent yn credu nad oedd GwE yn rhoi digon o gefnogaeth iddynt, neu bod y gefnogaeth a gafwyd ddim o'r safon a ddymunir. Byddai hyn yn galluogi swyddogion i archwilio a yw telerau'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) yn cael eu bodloni.

Dylai adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad yn Ionawr 2015 ar 'Arholiadau Allanol Wedi'u Gwirio ac Asesiadau Athrawon' gynnwys enghraifft o sefyllfa Sir Ddinbych yn genedlaethol ac yn rhanbarthol dros y pum mlynedd diwethaf, a rhaid cynnwys Adroddiad Blynyddol GwE (a bod cynrychiolydd o GwE yn bresennol i drafod yr adroddiad.

Gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor i GwE sicrhau nad eu bwriad yw canolbwyntio eu gwaith a'u hymdrechion ar ysgolion/awdurdodau sy'n methu yn unig, a bod ganddynt wasanaethau yn eu lle i helpu i gefnogi ysgolion/awdurdodau sy'n gwneud yn dda i gyflawni lefel o ragoriaeth. Pwysleisiodd swyddogion nad yw gwasanaeth addysg y Cyngor a GwE yn endidau ar wahân a bod nodau ac amcanion y ddau wasanaeth yr un fath - i gefnogi a chynorthwyo disgyblion y Sir i wireddu eu potensial addysgol a galwedigaethol a ddylai arwain at ganlyniadau gwell ar eu cyfer. Byddai Estyn yn barnu'r Cyngor a GwE ar y canlyniadau hyn, ac ar eu rôl ar y cyd wrth gefnogi disgyblion i gyflawni eu potensial.

Adroddodd y Pennaeth Addysg hyd yn hyn nad oedd unrhyw ddiweddariad gan Lywodraeth Cymru ynghylch plant sydd ag anghenion arbennig mewn ysgolion arbennig yn gorfod sefyll yr un profion â'r rhai sydd heb anghenion ac bod hynny wedi cael effaith negyddol ar berfformiad yr Awdurdod.

Roedd y Cynghorydd Arwel Roberts yn awyddus i egluro pwynt oedd wedi codi mewn cyfarfod diweddar o'r Cabinet pan ddywedodd y dylai Ysgol Brynhyfryd addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg 100% o'r amser, ond roedd o'n golygu y Ffrwd Gymraeg yn hytrach na'r ysgol gyfan. Cynigiodd y Pennaeth Addysg y byddai'n trefnu ymweliad i'r aelodau i Ysgol Brynhyfryd i weld a chwrdd â disgyblion yn y ffrwd Gymraeg ar draws yr ysgol. Mae nifer o Aelodau yn nodi y byddent yn gwerthfawrogi ymweliad o'r fath.

Gofynnwyd bod adroddiadau yn y dyfodol yn cynnwys gwybodaeth am y cynlluniau gwelliant ar gyfer y dair ysgol uwchradd sy'n tangyflawni fwyaf.

Yn dilyn trafodaeth fanwl:

***Penderfynwyd: -*** *yn amodol ar y sylwadau a'r camau gweithredu uchod i nodi perfformiad ysgolion yn erbyn perfformiad blaenorol a'r meincnodau allanol sydd ar gael ar hyn o bryd.*

## 6 PLANT SY'N DERBYN GOFAL - DANGOSYDDION PERFFORMIAD

Cyflwynodd yr Aelodau Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) a ofynwyd amdano yng ngoleuni argymhellion a wnaed yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru, ac roedd y meysydd i'w gwella yn cynnwys Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Ymhelaethodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ymhellach ar fanylion yn yr adroddiad. Eglurodd fod yna broblemau gyda dangosyddion addysg ac iechyd y llynedd gyda amserlenni yn cael eu heffeithio trwy beidio â chael staff arbenigol yn eu lle, a phroblemau gyda gweithio mewn partneriaeth – gan ddibynnu'n sylweddol ar argaeledd gweithwyr iechyd proffesiynol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC).

Roedd yr Awdurdod bellach wedi cyflogi nyrs ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (PDG) yn benodol sydd wedi cynyddu argaeledd ac ymatebolrwydd i adolygiadau. Mae'r swydd nyrs PDG wedi helpu'n arw gyda'r agwedd archwiliadau iechyd, gan fod y swydd hon gyda llai o ffocws ar broses ac yn canolbwyntio mwy ar wella canlyniadau ar gyfer plant unigol.

Cydnabu'r Aelodau bod y data y tu ôl i'r ystadegau a'r rhesymau dros y nifer o leoliadau a brofir rhai plant sy'n derbyn gofal yn gymhleth ac yn ddilys. Eglurwyd nad oedd yr holl newidiadau wedi cael effaith negyddol ee symud o'r ysbyty i'r Gwasanaeth neu o'r Gwasanaeth yn ôl at aelod o'r teulu.

Roedd nifer o ffactorau cyfrannol a oedd yn dylanwadu ar nifer y plant a oedd wedi bod mewn 3 neu fwy o leoliadau y flwyddyn.  Mae rhai plant yn symud am resymau positif ee adsefydlu neu gyda theulu estynedig, lleoliadau mabwysiadu, symud i annibyniaeth ac ati. Mewn lleiafrif o achosion, mae'n anodd dod o hyd i adnodd sy'n gallu rheoli'r problemau a'r pryderon gan berson ifanc yn effeithiol a gallant yna symud ychydig o weithiau cyn i hynny gael ei drefnu'n foddhaol.

Roedd yr aelodau'n fodlon mai lles a sefydlogrwydd tymor hir y plentyn oedd y rhesymau y tu ôl i'r tanberfformiad canfyddedig (nifer y symudiadau), a bod yr Awdurdod mewn gwirionedd yn gweithredu er lles y plentyn.

Codwyd pryderon mewn perthynas â phlant anabl, rhai ohonynt yn mynychu ysgolion preswyl arbennig a oedd yn diwallu eu hanghenion ac eraill a oedd yn derbyn gofal maeth seibiant, yn cael eu dosbarthu fel 'Plant sy'n Derbyn Gofal' er gwaethaf y ffaith fod ganddynt fywyd teuluol sefydlog a chartref.  Eglurwyd mai'r rheswm am hyn oedd y ddeddfwriaeth a geir yn Neddf Plant 1989, a oedd wedi peri gofid i nifer o deuluoedd.

Nodwyd bod Llywodraeth Cymru (LlC) ar fin treialu cyfres o ddangosyddion sy'n seiliedig ar ganlyniadau ym maes plant sy'n derbyn gofal a bod CSDd yn mynd i fod yn rhan o'r rhaglen beilot.  Y gobaith oedd y byddai'r dangosyddion newydd yn mynd i'r afael â rhai o'r anghysondebau a oedd wedi dod i'r amlwg gyda'r dangosyddion cyfredol.  Cydnabu'r Pwyllgor na fyddai unrhyw set o ddangosyddion byth yn berffaith, ond eu bod yn offeryn rheoli da i ofyn cwestiynau neu i ymchwilio ymhellach.

Bod y Pwyllgor:

***Yn Penderfynu: -*** *yn amodol ar y sylwadau uchod a'r sicrwydd a roddwyd, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r camau a gymerwyd i wella perfformiad a chefnogi Plant sy'n Derbyn Gofal y Sir.*

**7 ADOLYGIAD O BERFFORMIAD BLYNYDDOL 2013/14**

Fe gyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad y fersiwn drafft o'r Adroddiad Adolygiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2013/14 (a ddosbarthwyd yn flaenorol) am sylwadau'r Pwyllgor cyn ei gyflwyno i'r Cyngor Sir i'w gymeradwyo ac yna i'w gyhoeddi.  Ailadroddodd yr Aelod Arweiniol nad oedd unrhyw ran o'r wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad yn newydd i'r Pwyllgor – a'i fod wedi'i gyflwyno ddwywaith o'r blaen - ond roedd yn adroddiad gorfodol i Lywodraeth Cymru.

Wrth ei ystyried fy dynodd y Pwyllgor sylw at y meysydd canlynol i'w harchwilio yn fanylach wrth ystyried yr adroddiad perfformiad ar y Cynllun Corfforaethol - adroddiad diwedd Chwarter 2 yn Ionawr 2015:

- y cynnydd gyda chyflawni Cytundebau Canlyniadau a'r goblygiadau posib ar y gyllideb trwy beidio â chyflawni neu gyflawni cytundebau yn rhannol wrth symud ymlaen;

- i ganolbwyntio ar feysydd cyflawni â statws 'coch', yn enwedig y rhai sy'n dangos dirywiad (saeth tuag i lawr) mewn perfformiad ac ymarferoldeb;

- yn gynnar yn 2015 dylai'r Pwyllgor ystyried effaith bosibl y toriadau yn y gyllideb wrth geisio cyflawni blaenoriaethau corfforaethol ac ar berfformiad y Cyngor yn y dyfodol wrth ddarparu gwasanaethau i alluogi disgwyliadau a risgiau yn y dyfodol i gael eu rheoli yn effeithiol

Yn ogystal â'r uchod, nodwyd y camau canlynol:

- troednodiadau i'w cynnwys ar adroddiadau yn y dyfodol i ddiffinio gweithgarwch neu ddangosyddion cymhleth;
- aelodau cyswllt pwyllgor i ganolbwyntio ar eu maes penodol o'r Cynllun Corfforaethol a threfnu i gyfarfod â'r Pennaeth Gwasanaeth os oes ganddynt bryderon ac i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor
- gwnaed sylw bod y Bwrdd Uchelgais Economaidd a Chymunedol yn canolbwyntio gormod ar broses a heb ddigon o bwyslais ar gamau gweithredu i ddatblygu'r economi leol
- bod casgliadau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Tai Fforddiadwy yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Craffu maes o law - gyda'r GCIGA yn penderfynu ar y Pwyllgor mwyaf priodol

Felly:

***Penderfynwyd:***
*(i) yn amodol ar y sylwadau uchod, bod y fersiwn drafft o Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2013/2014 yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir i'w gymeradwyo; a*
*(ii) dylai'r Pwyllgor yn y dyfodol ddefnyddio'r Adroddiad Perfformiad Cynllun Corfforaethol Chwarter 2 i nodi meysydd a chytundeb canlyniadau ar gyfer archwiliad manwl gyda'r golwg i wella perfformiad a gwireddu'r manteision gorau posibl o'r cytundebau canlyniadau.*

## 8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynydd Archwilio adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn i'r aelodau adolygu rhaglen waith y pwyllgor ac i roi diweddariad ar faterion perthnasol.

Yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Perfformiad mae'r adroddiad cwynion "Eich Llais" wedi'i drefnu. Mae Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg wedi gofyn i'r Pwyllgor ddewis 2 maes Gwasanaeth i ganolbwyntio arno i Swyddogion i fod yn bresennol ac i ymateb i gwestiynau. Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r Cadeirydd gyfarfod â'r Cydlynydd Archwilio i fynd drwy'r adroddiad a dewis 2 faes gwasanaeth sy'n sefyll allan.

Roedd teledu cylch cyfyng hefyd ar yr agenda ar gyfer y Pwyllgor Archwilio Perfformiad nesaf. Mae'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau wedi gofyn i'r cwestiwn gael ei ofyn ynglŷn â chyfraniad Heddlu Gogledd Cymru at gyllid TCC.

Diweddarwyd y Pwyllgor ar y newyddion diweddaraf am y cyfarfod Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio sy'n argymell y dylai rhaglenni gwaith i'r dyfodol ganolbwyntio ar gyflawni'r Cynllun Corfforaethol a chyllidebau cyfarfod. Cytunodd y Grŵp Cadeiryddion ac Is Gadeiryddion Archwilio (GCIGA) hefyd bod yr eitemau wedi'u cynnwys ar agendâu angen pasio'r prawf "P.A.P.U.R" a bod ffurflenni sy'n cyflwyno eitemau i'w harchwilio yn cael eu cyflwyno gan yr aelodau.

Mae'r GCIGA wedi trafod y posibilrwydd o eitemau yn ymwneud ag aelodau cyfetholedig yn cael eu cyflwyno yn unig i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad ond yn y diwedd wedi cytuno eu bod yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor mwyaf perthnasol.

***PENDERFYNWYD*** *bod -*

*y rhaglen gwaith i'r dyfodol fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad yn cael eu cymeradwyo*

## 9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Cyhoeddodd y Cynghorydd Colin Hughes fod cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Tai Fforddiadwy ym mis Hydref ac na allai fod yn bresennol - ond byddai ei ddirprwy y Cynghorydd Geraint Lloyd-Williams yn bresennol. Roedd cyfarfod arall wedi'i drefnu ar gyfer 24 Hydref ac ni allai'r naill na'r llall fod yn bresennol. Cytunodd y Cadeirydd i ddirprwyo ar yr achlysur hwn.

## 10 DYFODOL GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL MEWNOL

### GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *o dan Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd i'w gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol ar y sail fod tebygrwydd y byddai gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 15 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.*

Cyflwynwyd adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Archwilio a oedd wedi bod yn edrych ar ddyfodol y gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion yn fewnol. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor gan Gadeirydd y Grŵp, y Cynghorydd Meirick Lloyd-Davies a amlinellodd y broses a ddilynwyd a'r dull a dyfnder yr adolygiad. Pwysleisiwyd, er bod y Cyngor yn wynebu cyfyngiadau cyllidebol difrifol yn y dyfodol, y prif yrrwr ar gyfer yr adolygiad hwn oedd yr angen i fodloni gofynion poblogaeth hŷn gynyddol o fewn gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, a oedd yn gosod llawer mwy o bwyslais ar hyrwyddo annibyniaeth ac ail-alluogi.

Mae nifer o aelodau yn cwestiynu'r rhesymeg y tu ôl i'r opsiynau a nodir yn yr adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, yn cynnwys argymhellion y Grŵp. Roedd y cwestiynau a gafodd eu hateb gan Gadeirydd a swyddogion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn gysylltiedig â'r gallu o fewn y sector annibynnol yn lleol i gwrdd â'r galw

am wasanaethau, ansawdd y gwasanaethau yn y sector annibynnol, trefniadau monitro, arbedion a ragwelir a'r amserlen ar gyfer gweithredu'r newidiadau arfaethedig i wasanaethau os y cytunir arnynt. Pwysleisiodd Cadeirydd ac aelodau y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, yn ogystal â swyddogion, fod y cynigion sy'n deillio o adolygiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn canolbwyntio ar y dinesydd, ac y byddai'r pwyslais ar ateb anghenion y defnyddiwr gwasanaeth a darparu mynediad teg i wasanaethau ar gyfer holl drigolion y Sir. Ni fyddai unrhyw sefydliad yn cael ei gau cyn bodloni anghenion y defnyddiwr gwasanaeth. Byddai'r cyfalaf o werthu unrhyw adeiladau yn sgil yr adolygiad yn cael ei ail-fuddsoddi mewn gofal ychwanegol yn y dyfodol ac yng ngwasanaethau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles. Ar ddiwedd y drafodaeth fanwl cafodd yr argymhellion eu rhoi i bleidlais a:

***Penderfynwyd:***

*(i) derbyn yr arfarniad o opsiynau a chefnogi'r opsiynau a ffefrir, gan arwain at ail-ddarparu gwasanaethau ar gyfer y bobl hynny sy'n eu defnyddio wrth barhau i ddiwallu eu hanghenion a aseswyd; a*

*(ii) bod y Pwyllgor gan nodi bod yr adroddiad a'r gwerthusiad o'r opsiynau yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir i'w drafod, yn argymell i'r Cabinet bod ymgynghoriad ffurfiol, gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, yn cael ei gynnal ar ailddarparu gwasanaethau fel y gellir gweithredu'r opsiynau a ffefrir a gwneud arbedion.*

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Perfformiad** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **20 Tachwedd 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus a'r Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd/ Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd** |
| **Teitl:** | **Teledu Cylch Caeëdig (TCC) a Gwasanaeth Galwadau y Tu Allan i Oriau Sir Ddinbych** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 I ddarparu diweddariad i'r Aelodau ar TCC a Gwasanaeth y Tu Allan i Oriau'r Cyngor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Cyflwynwyd adroddiad i'r Aelodau ym mis Hydref 2013 er mwyn cyflwyno amrywiaeth o brosiectau posibl i ddatblygu'r gwasanaeth TCC, a oedd â'r potensial i ddod ag incwm ychwanegol. Gofynnodd yr aelodau am adroddiad diweddaru ar y cynnydd.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Argymhellir bod yr Aelodau'n gwneud sylwadau ar gynnwys yr adroddiad hwn yng ngoleuni'r prosiect Rhyddid a Hyblygrwydd i alluogi barn Archwilio i gael ei adrodd i'r Cyngor Sir ar 9 Rhagfyr.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae system TCC y Cyngor yn cael ei weithredu a'i reoli gan y Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd. Mae wedi'i leoli yng Ngorsaf yr Heddlu, Y Rhyl.

4.2 Mae'r tîm yn cynnwys 10 aelod o staff (nid yw pawb yn llawn amser) sy'n gweithio shifftiau i ddarparu gwasanaeth 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, 365 diwrnod y flwyddyn.

4.3 Mae'r Camerâu TCC Gofod Cyhoeddus wedi eu lleoli yn Y Rhyl, Prestatyn a Rhuddlan. Mae'r camerâu wedi eu lleoli fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Y Rhyl | 59 Camera |
| Prestatyn | 18 Camera |
| Rhuddlan | 4 Camera |

4.4 Mae'r holl gamerâu hyn yn gamerâu byw, wedi eu cysylltu â’n prif ystafell reoli TCC yng Ngorsaf Heddlu'r Rhyl ac yn cael eu monitro gan ein gweithredwyr TCC.

4.5 Bydd y gost o ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2014/15 yn £282 mil, gydag incwm o £48 mil gan adael cost cyllideb net o £234 mil. Nid yw’r 3 Chyngor Tref yn gwneud unrhyw gyfraniad ariannol tuag at gost y gwasanaeth TCC. Mae'r Heddlu’n cyfrannu oddeutu £17 mil y flwyddyn.

4.6 Mae 3 tref arall yn y Sir, Dinbych, Rhuthun a Llangollen wedi gwneud eu trefniadau eu hunain dros y blynyddoedd diwethaf i gael systemau gofod cyhoeddus TCC cyfyngedig yn eu trefi. Mae'r rhain yn cael eu rhedeg yn annibynnol o system Cyngor Sir Ddinbych ac nid yw Cyngor Sir Ddinbych yn gwneud unrhyw gyfraniad ariannol tuag at y cynlluniau hyn.

4.7 Cafodd rhestr o gynigion posibl ar sut i ddatblygu Gwasanaeth TCC Cyngor Sir Ddinbych ei llunio gan swyddogion a'i chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio hwn ym mis Hydref 2013. Yn dilyn y cyfarfod hwnnw, roedd Swyddogion yn gwerthuso’r prosiectau arfaethedig ar sail cynnal gwasanaeth TCC 24/7.

4.8 Un o'r materion wrth ystyried y cynigion hyn oedd sefydlu pa lefel o fuddsoddiad ariannol fyddai ei angen i'r rhwydwaith ddarparu'r capasiti ychwanegol i alluogi’r prosiectau hyn i ddigwydd ac unrhyw offer ychwanegol fyddai eu hangen.

4.9 Sefydlodd yr adolygiad hwn y byddai Cyngor Sir Ddinbych angen buddsoddi tua £300 mil i greu'r capasiti ychwanegol yn y system i ddarparu ar gyfer y gwaith ychwanegol. Byddai'r prosiectau hyn hefyd yn gofyn am adnoddau rheoli sylweddol o fewn y Gwasanaeth. Teimlwyd na allai’r lefel hon o fuddsoddiad gael ei gyfiawnhau yn yr hinsawdd economaidd bresennol ac o ystyried yr heriau ariannol a wynebir gan y Cyngor. Tua'r un pryd dechreuodd y prosiect Rhyddid a Hyblygrwydd edrych i mewn i holl wasanaethau sy'n cael eu darparu ac roedd y Gwasanaethau TCC wedi’u nodi fel maes o arbedion posibl.

4.10 Yng nghyfarfod cyllideb yr Aelodau ddydd Llun 13 Hydref, cytunodd yr Aelodau mewn egwyddor i Gyngor Sir Ddinbych roi'r gorau i ddarparu, rheoli ac ariannu'r gwasanaeth TCC er mwyn cyflawni arbediad o leiaf £200 mil yn y flwyddyn ariannol 2016/17. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar 9 Rhagfyr fel rhan o'r prosiect Rhyddid a Hyblygrwydd Cam 2 ar gyfer penderfyniad terfynol.

4.11 Os, yn dilyn penderfyniad y Cyngor Llawn ar 9 Rhagfyr, y bydd y gyllideb TCC yn cael ei leihau gan £200 mil, mae'n fwriad gan swyddogion i fwrw ymlaen â 'strategaeth ymadael' ar gyfer y gwasanaeth TCC. O gofio na fydd yr arbedion yn ofynnol tan 2016/17 mae tua 12 mis i gytuno a gweithredu strategaeth ymadael. Mae swyddogion yn credu y dylai gweithgor amlasiantaethol gael ei sefydlu, yn cynnwys Heddlu Gogledd Cymru, Aelodau o Gynghorau Tref Y Rhyl, Prestatyn a Rhuddlan a phartïon eraill â diddordeb i edrych ar opsiynau posibl eraill ar gyfer cyflwyno system TCC yn y 3 tref. Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn cefnogi'r grŵp hwn ac yn cynorthwyo i 'drosglwyddo' unrhyw gyfrifoldebau i drydydd parti. Yn y cyfnod hwn mae Swyddogion yn hyderus y

gallai Gwasanaeth TCC arall yn y 3 tref hyn dal gael ei ddarparu gan drydydd parti, gan y gallai'r seilwaith presennol gael ei 'drosglwyddo' gyda dull y cytunwyd arno o gynnal a chadw/rheoli'r cyfarpar, systemau ac ystafell reoli.

4.12 Bwriedir hefyd i sefydlu Gweithgor mewnol gyda Swyddogion o wasanaethau rheng flaen sy'n defnyddio'r cyfleuster y Tu Allan i Oriau a ddarperir gan y tîm TCC, ynghyd â Swyddogion o'r Gwasanaethau Cwsmeriaid i gytuno ar system ar gyfer delio â galwadau y Tu Allan i Oriau os byddai Cyngor Sir Ddinbych yn rhoi'r gorau i reoli’r swyddogaeth, ac yn debygol o beidio cael ei staffio 24/7.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae gweithrediad gwasanaeth TCC yn cyfrannu'n uniongyrchol tuag at y blaenoriaethau corfforaethol o amddiffyn pobl ddiamddiffyn yn ein cymunedau a chadw ein strydoedd yn lân ac yn daclus.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Bydd unrhyw gostau o safbwynt strategaeth ymadael angen cael eu cynnwys o fewn cyllidebau presennol. Bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill, a dyna pam bod angen strategaeth ymadael a gytunwyd.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad? Wedi gwneud (AoEaG) ar y penderfyniad? Dylid atodi Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau fel atodiad i’r adroddiad hwn.

7.1 Mae effaith posib y penderfyniad hwn wedi cael ei asesu. Os penderfynir symud ymlaen ag unrhyw un o’r cynigion a soniwyd amdanynt yn gynharach yna rhaid eu hasesu am effaith cydraddoldeb.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda’r Pwyllgor Archwilio ac eraill?

8.1 Ymgynghorwyd ag Aelodau trwy'r broses Rhyddid a Hyblygrwydd, hysbyswyd staff TCC a'r Undebau a chafwyd trafodaethau anffurfiol gyda Heddlu Gogledd Cymru. Mae Cynghorau Tref y Rhyl, Prestatyn a Rhuddlan hefyd yn ymwybodol o sefyllfa’r gyllideb a'r angen am strategaeth ymadael a gytunwyd arni, lle byddant yn cymryd rhan.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae hwn yn un o gynigion y gyllideb sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd a chymerir yn ganiataol y bydd arbediad yn cael ei wneud yn 2016/17.

## 10. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?

10.1 Os bydd penderfyniad yn cael ei wneud yn y Cyngor Llawn ym mis Rhagfyr i wneud arbedion o £200 mil yn y gyllideb TCC yna heb strategaeth ymadael briodol mae nifer o risgiau gweithredu, ariannol ac enw da.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Dim angen penderfyniad ffurfiol.

11.2 Mae Erthygl 6.3.2(c) o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi y gall Archwilio "ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar yr ardal neu ei thrigolion" ac mae Erthygl 6.3.3(a) yn nodi y gall Craffu "gynorthwyo'r Cyngor a'r Cabinet i ddatblygu ei gyllideb a'r fframwaith polisi ..."

**Swyddog Cyswllt:**
Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd. Ffôn: 01824 706350

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Perfformiad** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **20 Tachwedd 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad/Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Swyddog Gwelliant Corfforaethol** |
| **Teitl:** | **Adolygiad o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, Tachwedd 2014** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Adolygiad ffurfiol o Gofrestr Risg Gorfforaethol mis Hydref 2014.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Cyflwyno'r fersiwn ddiweddaraf ffurfiol o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a gytunwyd yn Sesiwn Briffio'r Cabinet i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad yn nodi'r dileadau, yr ychwanegiadau a'r diwygiadau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, ac yn cyflwyno sylwadau arni.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

4.1 Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn galluogi'r cyngor i reoli'r tebygolrwydd ac effaith y risgiau mae'n eu hwynebu drwy werthuso effaith unrhyw weithredoedd cyfredol i liniaru risg, a chofnodi dyddiadau cau a chyfrifoldebau ar gyfer gweithredoedd pellach er mwyn sicrhau rheolaeth well.

4.2 Y Tîm Gweithredu Corfforaethol sydd wedi datblygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, a nhw sy'n berchen arni. Mae'r broses ar gyfer adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol fel a ganlyn:

- Anogir gwasanaethau i adolygu eu cofrestr risg ddwywaith y flwyddyn (yn unol â methodoleg Rheoli Risg Gorfforaethol) cyn bob adolygiad o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, a hefyd cyn eu cyfarfodydd Herio Perfformiad Gwasanaethau. Bydd unrhyw faterion neu ymholiadau yn cael eu trafod yn y cyfarfodydd Herio Perfformiad Gwasanaethau.

- Mae'r Tîm Gwelliant Corfforaethol yn dadansoddi'r holl gofrestrau risg y gwasanaethau i ganfod risgiau sy'n arwyddocaol yn gorfforaethol neu unrhyw themâu risg sy'n ymddangos ar draws y gwasanaethau.

- Mae’r diweddariadau am risgiau corfforaethol cyfredol yn cael eu casglu gan berchnogion y risg, a bydd diweddariadau am weithredoedd i liniaru yn cael eu casglu gan y rhai sy’n cyflawni’r gweithredoedd.

- Cynhelir cyfarfodydd unigol gyda’r Prif Weithredwr a phob Cyfarwyddwr Corfforaethol, i drafod y risgiau y maent yn eu harwain. Rhoddir ystyriaeth a yw’r risg yn parhau, a yw’r sgôr yn gywir, ac a oes angen cynnwys unrhyw risgiau newydd o dan eu hawdurdodaeth.

- Cynhelir gweithdy risg gyda’r Cabinet a’r Tîm Gweithredu Corfforaethol i adolygu risgiau cyfredol; trafod cynnydd ar weithredoedd lliniaru a gytunwyd arnynt; trafod a chytuno ar risgiau corfforaethol newydd; adolygu a diweddaru sgôr risgiau sy’n weddill; diweddaru rheolyddion sydd eisoes yn bodoli (yn dilyn gweithredoedd sydd eisoes wedi’u cwblhau); a chytuno ar unrhyw weithredoedd eraill sydd eu hangen i liniaru’r risg.

4.3 Mae’r Tîm Gweithredu Corfforaethol a’r Cabinet yn adolygu’r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn ffurfiol ddwywaith y flwyddyn. Ond, bydd unrhyw risgiau newydd neu risgiau cynyddol yn cael eu hadrodd i’r Tîm Gweithredu Corfforaethol (drwy’r Tîm Gwelliant Corfforaethol) pan fyddant yn cael eu canfod. Yna bydd y Tîm Gweithredu Corfforaethol yn penderfynu a ddylid cynnwys y risg yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

4.4 Yn dilyn pob adolygiad ffurfiol o’r Gofrestr Risg Gorfforaethol (ddwywaith y flwyddyn), mae’r ddogfen sydd wedi’i diwygio’n cael ei chyflwyno i’r Pwyllgor Archwilio Perfformiad.

4.5 Bydd y gweithredoedd a nodir er mwyn delio â risgiau corfforaethol yn cael eu cynnwys mewn Cynlluniau Gwasanaethau (lle bo’n addas), sy’n galluogi Aelodau Archwilio Perfformiad i fonitro’r cynnydd. Dylid amlygu unrhyw faterion perfformiad mewn perthynas â darparu’r digwyddiadau fel rhan o broses Herio Perfformiad Gwasanaethau.

4.6 Mae Archwilio Mewnol y cyngor yn darparu sicrwydd annibynnol ar effeithiolrwydd dulliau rheoli mewnol a’r dulliau sydd wedi’u gosod er mwyn lliniaru risgiau yn y cyngor. Mae hefyd yn cynnig her annibynnol i sicrhau bod egwyddorion a gofynion rheoli risg yn cael eu defnyddio’n gyson ym mhob rhan o’r cyngor. Mae Gwasanaethau Archwilio Mewnol hefyd yn defnyddio gwybodaeth o’n cofrestrau risg gwasanaethau a chorfforaethol er mwyn penderfynu ar eu rhaglen gwaith i’r dyfodol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Pwrpas y Gofrestr Risg Gorfforaethol yw adnabod digwyddiadau posibl yn y dyfodol all gael effaith niweidiol ar allu’r cyngor i gyflawni’r amcanion, gan gynnwys y blaenoriaethau corfforaethol. Mae’r rheolyddion a’r gweithredoedd yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni’r blaenoriaethau corfforaethol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Mae cost datblygu, monitro ac adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cael eu cynnwys yn y cyllidebau cyfredol.

**7. Beth yw'r prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1 Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn dogfennu risgiau sydd wedi'u canfod, a'r gweithredoedd lliniaru cyfredol ac arfaethedig. Nid yw'r broses o ddatblygu ac adolygu'r ddogfen yn ei hun yn cael effaith uniongyrchol ar unrhyw berson gyda rhinweddau wedi'u diogelu. Ond, dylid asesu effaith ar gydraddoldeb ar unrhyw broses, strategaeth neu bolisi newydd sy'n cael eu ffurfio o ganlyniad i weithred lliniaru, ar lefel darparu gwasanaeth.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

8.1 Mae manylion y broses ymgynghori i adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol wedi'u cynnwys ym mharagraff 4.2.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r broses sydd wedi'i hamlinellu yn yr adroddiad hwn i ddatblygu, monitro ac adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Y prif risg yn berthnasol â'r broses o reoli risg yw nad yw'r cofrestrau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd ac felly nid ydynt yn dod yn offeryn rheoli ystyrlon a dynamig. Ond, mae'r broses newydd wedi'i chynnwys yn llawn yn fframwaith rheoli perfformiad y cyngor, a ddylai sicrhau nad yw hyn yn digwydd.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Deddf Llywodraeth Leol 2000

11.2 Erthygl 6.3.4(b) o Gyfansoddiad y Cyngor

**Swyddog Cyswllt:**
Swyddog Gwella Corfforaethol
Tel: 07810 055413

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Appendix 1**

**The main changes made to the Corporate Risk Register are listed below, along with any points of note:**

i) No change to DCC001: '*The risk of a serious safeguarding error where the council has responsibility, resulting in serious injury or death'*. The planned mitigating actions are close to completion, but are still to be implemented.

ii) Revision to DCC004: *'The risk that the HR framework doesn't support the organisation's aims'*. Support processes are now in place, and the Improvement Plan is progressing (annual leave guidance has been developed, the appraisal system has been reviewed and new lifecycles have been developed for managers). Enough progress has been made to justify a reduction in the residual risk score from a B2 to a C2, but there is still some work to be done around updating policies and procedures, and a strategy for developing leadership.

iii) No change to DCC006: *'The risk that the economic and financial environment worsens beyond current expectations, leading to additional demand on services and reduced income'*. The inherent and residual risk scores remain identical, with this being a significant risk. This is because although the Freedom & Flexibilities program is identifying savings, it is still a work in progress.

iv) Revision to DCC007: *'The risk that critical or confidential information is lost or disclosed'*. A previous mitigating action ('Roll out of information security e-learning') is fulfilled, but not all office-based staff have completed the training. Hence, an additional action has been added: to report non-completion to Cabinet, and inform SLT of this process. Other mitigating actions are due for completion at the next Corporate Risk Register review (March 2015).

v) No change to DCC011: *'The risk of a severe weather, contamination, or public health event'*. Although there had been progress against implementation of the mitigating actions, they are not yet complete (but delivery of training to SLT and finalisation of the Incident Handbook are imminent). Until these actions are complete, the scores remain at D2. The actions we are putting in place at the moment should reduce the Impact of an emergency event (whereas mitigating actions for most risks tend to affect the Likelihood), and this should be tested by a multi-agency training exercise scheduled for October.

vi) Revision to DCC012: *'The risk of a significantly negative report(s) from external regulators'*. No change to the score here, but the further mitigating action to merge the Annual Governance Statement and the Corporate Self-Assessment is complete.

vii) Revision to DCC013: *'The risk of significant financial and reputational liabilities resulting from management of some Arm's Length organisations'.* There's a new mitigating action here, which is that Internal Audit will develop a robust framework for monitoring governance arrangements with 'Council Funded Service Providers'. This is expected to be delivered by March 2015, at which point the risk's score will be reviewed. It's suggested that we change the reference here from "Arm's Length Organisations" to "Council Funded Service Providers" for consistency.

viii) No change to DCC014: *'The risk of a health & safety incident resulting in serious injury or the loss of life'*.

ix) No change to DCC016: *'The risk that the impact of welfare reforms is more significant than anticipated by the council*'. This remains an area of uncertainty and, therefore, a risk for the Council.

x) Revision to DCC017: *'The risk that the ICT framework does not meet the organisation's needs'.* There are two mitigating actions for this risk (Telephony Strategy, and MS Enterprise rollout), which aren't due for delivery until March 2015. Progress against them has increased our confidence in our ability to deliver these actions, but where this risk originally focussed on the ICT department itself, consideration has now broadened to consider other important IT systems that the council operates, such as Social Service's PARIS system. There are some corporate projects that have a dependency on PARIS (e.g. Vulnerable People Mapping, Central Invoice Registration), and there may be similar non-central IT systems across the Council that need to fit with the organisation's strategy. Should we consider how we respond to this situation under this risk description?

xi) No change to DCC018: *'The risk that programme and project benefits are not fully realised'.* The Strategic Investment Group is now the only one that can approve funding for capital projects, and a representative from the Corporate Programme Office (who will seek to ensure that project benefits are articulated and appear robust) sits on the group. Nevertheless, there are still mitigating actions to be completed (some are due for completion before the next Risk Register review in March 2015), so the inherent and residual risk scores remain identical, and significant.

xii) No change to DCC019: *'The risk that the availability of the Welsh Government's match-funding contribution towards Band A of the 21st Century Schools programme is not in line with the timescales for Denbighshire's work programme'*. The 21st Century Schools Programme is progressing, with contracts agreed (or about to be agreed) for three out of the five projects. However the scale of the project still warrants the risk level of B2 as the remaining value of

the two other projects is approximately £39m.

xiii) Revision to DCC021: *‘The risk that effective partnerships and interfaces between BCU Health Board and Denbighshire County Council (DCC) do not develop, leading to significant misalignment between the strategic and operational direction of BCUHB and DCC’*. The residual risk’s likelihood has been downgraded here, so the score is now C2. This is due to the fact that the new Chief Executive of BCUHB is now in post, and the Statutory Director of Social Services on the BCUH Board will be Nicola Stubbins, Denbighshire. We’re awaiting official confirmation, but the appointment will better position Denbighshire to effectively partner the Health Board.

xiv) New risk, DCC027: ‘*The risk that the decisions that are necessary to enable the delivery of a balanced budget are not taken or implemented quickly enough’.* As our settlement reduces, we need to develop and gain approval for plans as to where to stop spending in our budget. Any plans require the approval of Council, and must be implemented in a timely manner that complies with legislation. With a suggested inherent score of B1, mitigating factors in place include the Freedom & Flexibilities program, and Member involvement in its operation. It’s suggested that the residual score is then a C1 (reduced likelihood). Is there any further action we need to take in order to ensure approved decisions are implemented in a timely and effective manner?

xv) New risk, DCC028: ‘*The risk that the services that we scale back have a greater negative impact than we anticipated’.* When deciding where to make budget cuts, we endeavour to ensure the quality of key services. There is a risk that we haven't identified the correct services as being 'key', and/or that the changes we make are more disruptive than we anticipated. There’s also the risk that we don’t effectively anticipate and manage the reputational risks associated with service reductions. With a suggested inherent risk score of B2, mitigating factors in place include the fact that Impact Assessments are undertaken, and all reports ask for risks and benefits to be articulated. It’s suggested that the residual score is C2 (reduced likelihood). Is there any further action we need to take to ensure we have fully considered the impact of our ideas and decisions?

xvi) New risk, DCC029: ‘*Risk of successful challenge that we are illegally depriving people of their liberty’.* In March 2014 the Supreme Court ruled that all people who lack the capacity to make decisions about their care and residence and, under the responsibility of the state, are subject to continuous supervision and control and lack the option to leave their care setting are deprived of their liberty. This means that each client needs to be assessed as to whether their liberty’s being jeopardised by

practises in their placement. We need to train our officers in how to assess whether liberty's being jeopardised, and the main challenge here is how to deliver that training within the given timescales.

# Risk Assessment Criteria

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| LIKELIHOOD | Event is almost certain to occur in most circumstances | >70% | Almost Certain | A | | | | | |
| | Event likely to occur in most circumstances | 30-70% | Likely | B | | | | | |
| | Event will possibly occur at some time | 10-30% | Possible | C | | | | | |
| | Event unlikely and may occur at some time | 1-10% | Unlikely | D | | | | | |
| | Event rare and may occur only in exceptional circumstances | <1% | Rare | E | | | | | |
| | | | | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 |
| | | | | | Very Low | Low | Medium | High | Very High |
| | | | Service Performance | | Minor errors or disruption | Some disruption to activities/customers | Disruption to core activities/ customers | Significant disruption to core activities. Key targets missed | Unable to delivery core activities. Strategic aims compromised |
| | | | Reputation | | Trust recoverable with little effort or cost | Trust recoverable at modest cost with resource allocation within budgets | Trust recovery demands cost authorisation beyond existing budgets | Trust recoverable at considerable cost and management attention | Trust severely damaged and full recovery questionable and costly |
| | | | Financial | Cost (£) | <£50k | £50k - £250k | £250k - £1 m | £1 m - £5 m | >£5m |
| | | | IMPACT | | | | | | |

## Corporate Risk Severity key

| Severity | Management intervention |
|---|---|
| Minor | Risk easily managed locally no need to involve senior management |
| Moderate | Risk containable at Service level – senior management and SLT may need to be kept informed |
| Major | Intervention by SLT, Exec Group with Cabinet involvement |
| Critical | Significant Exec Group and Cabinet intervention |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Perfformiad** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **20 Tachwedd 2014** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol Cwsmeriaid a Chymunedau** |
| | **Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Swyddog Cwynion Corfforaethol** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Eich Llais – Chwarter 1 a Chwarter 2 2014/15** |

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

Mae’r adroddiad hwn yn darparu trosolwg o’r sylwadau da, awgrymiadau a chwynion y mae Cyngor Sir Ddinbych wedi eu derbyn dan ‘Eich Llais’ (polisi adborth cwsmeriaid y Cyngor) yn ystod Chwarter 1 a Chwarter 2 2014/15 (atodiad 1).

Ar gais y Pwyllgor, mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys cyfeiriad penodol at y gostyngiad diweddar mewn perfformiad wrth ddelio â chwynion, a nifer y cwynion heb eu datrys o fewn y terfynau amser gan yr Adran Priffyrdd a Seilwaith a’r Adran Cyllid ac Asedau (atodiad 2).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor am unrhyw fater perfformiad ac i wneud argymhellion i ymdrin â'r rhain yn unol â hynny.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn gwneud sylwadau ar berfformiad gwasanaethau ac, os yn briodol, yn nodi meysydd ar gyfer craffu yn y dyfodol.

## 4. Manylion yr Adroddiad

**Penawdau ar gyfer Chwarter 1 (gwelwch yr atodiadau am fanylion pellach).**

- Derbyniodd y Cyngor 141 o gwynion.
- Roedd cynnydd sylweddol (200%) yn y nifer y cwynion yn erbyn Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd; 27 yn Chwarter 1 o'i gymharu â 24 y chwarter diwethaf. 74% (20) yn ymwneud â Gorfodaeth Diogelwch Cymunedol.
- Cynnydd o 67% yn nifer y cwynion yn erbyn Cyllid ac Asedau (15 yn Chwarter 1 o gymharu â 9 y chwarter diwethaf). Cafwyd cynnydd o 36% yn nifer y cwynion yn yr Amgylchedd (30 yn Chwarter 1 o gymharu â 22 y chwarter diwethaf).

